

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Tŷ Hafan

Dyddiad arolygu: 9 a 10 Hydref
2018

Dyddiad cyhoeddi: 11 Ionawr
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	22
4.	Beth nesaf?	26
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	28
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	29
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	30

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o hosbis i blant Tŷ Hafan ar 9 a 10 Hydref 2018. Bydd yr arolygiad hwn yn bwydo i mewn i adolygiad thematig ehangach AGIC sy'n edrych ar y gofal a'r cymorth a roddir i bobl ifanc wrth drosglwyddo o wasanaethau gofal iechyd pediatreg i wasanaethau gofal iechyd oedolion.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, un adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn hynod ymroddedig ac yn teimlo'n angerddol dros eu gwaith o ofalu am blant a'u teuluoedd
- Roedd y gwaith o gynllunio gofal wedi'i deilwra'n unigol ar gyfer anghenion a dewisiadau pob plentyn
- Roedd ystod ddiddorol o weithgareddau a chyfleusterau ar gael i'r plant a'r teuluoedd eu defnyddio
- Roedd trefniadau ar waith i fonitro ac asesu ansawdd y gofal yn rheolaidd
- Gwelsom weithio amlasiantaethol effeithiol
- Gwelsom fod y tîm yn cael ei reoli a'i arwain mewn ffordd gefnogol.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwella agweddau ar yr amgylchedd, gan gynnwys arwyddion yr ystafelloedd ymolchi, toiledau, ystafelloedd meddyginiaeth a golchi a'r ardaloedd storio, a chwblhau'r camau a nodwyd yn y gorchymyn diogelwch tân.
- Gwella agweddau ar breifatrwydd ac urddas sy'n ymwneud â drysau'r ystafelloedd ymolchi / toiledau.

Gwnaethom nodi rhai achosion o dorri rheoliadau yn ystod yr arolygiad, yn ymwneud ag agweddau ar reoli risgiau amgylcheddol. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. Er nad yw hyn wedi arwain at roi hysbysiad diffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, oherwydd, os nad yw'n gwneud hynny, gallai arwain at beidio â chydymffurfio â rheoliadau.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Tŷ Hafan wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) fel hosbis annibynnol i blant, wedi'i lleoli ar Hayes Road, Sili, Bro Morgannwg.

Mae'r gwasanaeth yn darparu llety, gofal a thriniaeth ar gyfer hyd at 10 o blant neu bobl ifanc o dan 19 oed, sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd. Mae llety ar gael hefyd i deuluoedd, a brodyr a chwiorydd y plant o fewn y cyfleuster a adeiladwyd yn bwrpasol. Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf ar 21 Tachwedd 2003. Nid yw Tŷ Hafan yn codi tâl am ei wasanaethau gofal lliniarol arbenigol.

Mae gan y gwasanaeth dîm o staff sy'n cynnwys nyrsys cofrestredig (sydd â chymwysterau mewn gofalu am blant a gofal lliniarol, anabledau dysgu a chymwysterau oedolion), staff cadw tŷ, tîm chwarae, uwch reolwyr, staff gweinyddol, gwirfoddolwyr a ffisiotherapydd. Mae gan Dŷ Hafan ei feddyg ymgynghorol gofal lliniarol pediatrig ei hun, ac mae'r gwasanaeth wedi'i arwain gan y meddyg ymgynghorol. Erbyn hyn, Tŷ Hafan yw'r ganolfan ar gyfer y tîm gofal lliniarol pediatrig trydyddol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hefyd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau yn Nhŷ Hafan, gan gynnwys y canlynol:

- Gofal seibiant byr
- Gwella ar ôl llawdriniaeth
- Derbyn mewn argyfwng a rheoli symptomau
- Gofal diwedd oes a rheoli symptomau
- Gweithio cydweithredol gyda phartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol
- Ffisiotherapi a therapi galwedigaethol
- Hydrotherapi
- Gwasanaethau chwarae
- Therapi cerddoriaeth a therapïau cyflenwol

- Cymorth i'r teulu a chymorth profedigaeth

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Dywedodd y plant a'u teuluoedd wrthym eu bod yn hapus â'r gofal a'r driniaeth a roddir gan Dŷ Hafan. Dywedodd y teuluoedd wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar tuag atynt a'u plant. Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a'r plant, a thystiolaeth o gydberthnasau cadarnhaol a chefnogol rhwng y staff, a'r plant a'u teuluoedd.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom ofyn i'r gwasanaeth ddosbarthu holiaduron AGIC i rieni/cynrychiolwyr y plant sy'n derbyn gofal yn Nhŷ Hafan i geisio barn ar y gofal a gawsant. Yn ogystal, gwnaethom ofyn i'r staff gwblhau ein holiaduron er mwyn cael gwybod am yr amodau gweithio, ac i gael deall eu barn am ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion yn Nhŷ Hafan. Derbyniwyd cyfanswm o 26 o holiaduron staff wedi'u cwblhau, gydag 11 ohonynt wedi'u cwblhau gan rieni ar ran eu plentyn a 15 o holiaduron gan aelodau o'r staff mewn amrywiaeth o rolau. Gwnaethom hefyd siarad ag amrywiaeth o deuluoedd a staff yn ystod yr arolygiad.

Roedd yr adborth a gafwyd gan rieni yn yr holiaduron yn gadarnhaol iawn; gwnaethant ddweud bod y gofal a'r driniaeth a ddarperir yn rhagorol a bod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ofalu a rhoi triniaethau. Roedd sylwadau gan y rhieni a'r plant yn cynnwys y canlynol:

"Rydym yn cael lefel eithriadol o ofal ar gyfer ein mab yn Nhŷ Hafan. Mae'r staff ar bob lefel yn mynd allan o'u ffordd i ddiwallu ein hanghenion, sy'n anodd dros ben o ystyried pa mor unigryw yw cyflwr pob plentyn a sefyllfa pob teulu. Os bydd unrhyw broblemau neu bryderon yn codi, maent bob amser wedi mynd i'r afael â nhw ar unwaith."

"Mae'r gwasanaeth y mae Tŷ Hafan yn ei roi i ni yn anhygoel. Nid dim ond yn yr hosbis ond y gwasanaeth allgymorth hefyd. Roedd fy mab yn cael trafferth ymdopi â'i

orbryder, ac mae'r gwasanaeth a gafodd wedi'i gwneud yn haws o lawer iddo. Mae'r gwahaniaeth yn syfrdanol."

"Mae'r staff i gyd yn wych, byddant yn gwneud unrhyw beth i wneud yn siŵr bod eich arhosiad cystal â phosibl. Rydym yn teimlo'n gartrefol pan ddown ni yma ac ni allwn weld bai ar unrhyw beth!"

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod arwyddion mewn gwahanol ardaloedd yn yr hosbis a oedd yn atgoffa pawb i olchi eu dwylo ac roedd cyfleusterau saniteiddio dwylo ar gael i bobl a staff eu defnyddio er mwyn helpu i atal bacteria a feirysau rhag lledaenu. Roedd yr holl gleifion yn cytuno'n gryf yn eu hymatebion yn yr holiaduron fod y gwasanaeth yn lân ac yn daclus.

Gwelsom fod gwybodaeth am amddiffyn a diogelu rhag feirysau ffliw ac roedd taflenni 'Keep in Mind' ar gael yn cynnwys gwybodaeth am leihau damweiniau plant yn y cartref.

Mae gan yr hosbis amrywiaeth eang o gyfleusterau a rhaglenni i wella llesiant plant a theuluoedd. Roedd digon o deganau ac eitemau addysgol ar gael i'r plant ryngweithio â nhw. Mae'r plant a'r teuluoedd hefyd yn elwa ar fynediad at erddi a manau awyr agored sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, gan gynnwys offer chwarae sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae gan yr hosbis gydgysylltwyr chwarae penodedig sy'n hwyluso amrywiaeth o sesiynau cerddoriaeth, chwarae a sesiynau synhwyrus drwy gydol y dydd. Mae'r plant a'r teuluoedd hefyd yn gallu defnyddio pwll nofio er mwyn ymlacio ac ar gyfer hydrotherapi, nifer o ystafelloedd gweithgareddau ar gyfer celf a chreffft ac ystafelloedd synhwyrus penodedig er mwyn i'r plant ryngweithio â golau a sŵn. Cawsom wybod hefyd am y gwasanaeth benthyca teganau, a oedd yn rhoi amrywiaeth o deganau i blant â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd sy'n byw yn y gymuned am gyfnodau penodol.

Urddas a pharch

Cytunodd y plant a'r rhieni y gwnaethom siarad â nhw ac a gwblhaodd ein holiaduron fod y staff bob amser yn gwrtais, yn gwrando arnynt ac yn siarad â nhw am ofal a chyflwr meddygol eu plentyn. Ymhlith y sylwadau am y staff yn yr holiaduron, roedd y canlynol:

"Rydym mor ffodus fod gennym staff mor anhygoel i'n helpu ni. Rydym ni wrth ein boddau!!"

“Ni allai staff Tŷ Hafan fod yn fwy gofalgar, tosturiol na phroffesiynol. Maent wedi gofalu amdanom ni fel teulu yn arbennig o dda.”

Dyweddodd y staff a gwblhaodd ein holiaduron wrthym fod preifatrwydd ac urddas y cleifion bob amser yn cael ei gynnal, fod annibyniaeth y plant yn cael ei hyrwyddo a bod y plant a/neu eu teuluoedd bob amser yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal.

Mae pob plentyn sy'n cael gofal a thriniaeth yn Nhŷ Hafan yn cael ei ystafell wely unigol ei hun. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod rhywfaint o eiddo ac addurniadau'r plentyn yn cael eu cadw yn Nhŷ Hafan fel bod modd personoli ei ystafell cyn iddo gyrraedd am ei arhosiad.

Roedd y staff yn dangos llawer o barch tuag at breifatrwydd ac urddas y plant a'r teuluoedd a gwelsom ryngweithio cadarnhaol iawn rhwng y staff a'r teuluoedd/plant. Eglurodd y staff hefyd am y ffordd roeddent yn gweithio mewn partneriaeth â'r rhieni i gynnal unrhyw wiriadau ar y plant yn ystod y nos fel rhan o'u gofal mewn ffordd sensitif. Gwelsom hefyd fod yr amgylchedd yn cynnig ardaloedd cymunedol a phreifat lle gallai'r plant dreulio amser gyda'r staff a'u teuluoedd. Roedd ffenestr arsylwi ym mhob ystafell wely, â llenni y gellid eu cau pan oedd angen preifatrwydd. Gwelsom hefyd fod arwyddion 'do not disturb' ar gael, y gellid eu defnyddio i sicrhau preifatrwydd yn ystafelloedd y plant. Fodd bynnag, gwnaethom awgrymu i'r staff y dylai'r rhain fod ar gael ym mhob ystafell i'r plant a'u teuluoedd eu defnyddio fel yr oedd yn briodol.

Roedd nifer o ystafelloedd ymolchi/toiledau cymunedol mawr ar gael i'r plant eu defnyddio. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi bod angen gwneud gwelliannau i ddrysau'r ystafelloedd ymolchi er mwyn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas yn cael eu hyrwyddo. Y rheswm dros hyn yw am fod yr arwyddion ar y drysau'n fach, gan olygu nad oedd yn amlwg ar unwaith o'r tu allan mai ystafell ymolchi ydoedd. Gwnaethom sylwi hefyd nad oedd arwydd ar y drws yn dangos pan oedd rhywun yn defnyddio'r ystafell ymolchi. Nid oedd yn glir chwaith a oedd yr ystafelloedd ymolchi wedi'u dynodi yn rhai ar gyfer dynion, menywod neu'n rhai aml-rywedd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig gymryd camau i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas, mewn cysylltiad â drysau'r ystafelloedd ymolchi/toiledau.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Gwelsom fod gwybodaeth dda ar gael am yr amrywiaeth o staff a oedd yn gweithio yn Nhŷ Hafan, gyda lluniau o'r staff a'u henwau wedi'u harddangos ar y wal yn arwain tuag at yr ardal gymunedol. Gwelsom hefyd fod byrddau gwybodaeth ger ystafelloedd y plant, yn dangos pa staff a oedd ar sifft a phwy fyddai'n gweithio gyda'r nos. Gwnaethom nodi bod hon yn ffordd dda o roi gwybod i'r plant a'u teuluoedd pwy oedd yn gofalu amdanynt.

Gwelsom fod yr hosbis wedi datblygu 'contract teulu' yn ddiweddar, a oedd yn nodi cyfrifoldebau teuluoedd a staff Tŷ Hafan a'r hyn a ddisgwylir ohonynt yn glir yn ystod eu harhosiad. Eglurodd y staff y byddent yn trafod y wybodaeth hon gyda'r teuluoedd er mwyn sicrhau bod pawb yn deall y trefniadau a oedd ar waith i'w cefnogi a gofalu amdanynt a'u plentyn yn ystod eu harhosiad. Gwnaethom nodi bod hwn yn arfer da, ond gwnaethom hefyd awgrymu bod yr hosbis yn ystyried sut y byddai'n cytuno ar hyn â rhieni a oedd wedi gwahanu wrth ei gilydd.

Dywedwyd wrthym am y trefniadau sydd ar waith i roi mynediad i wasanaethau eiriolaeth i blant a'u teuluoedd, pe bai angen. Gwelsom fod taflenni gwybodaeth am wasanaethau eiriolaeth hefyd ar gael yn yr ardaloedd cymunedol.

Cawsom drafodaeth fanwl â'r uwch dîm ynghylch sut roedd yr hosbis yn ystyried dymuniadau a chydsyniad y plant dan ei gofal. Cawsom ein sicrhau y byddai dymuniadau, dewisiadau a chydsyniad y plant yn cael eu ceisio lle bo hynny'n bosibl, ac y byddent yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal. Byddai rhieni neu gynrychiolwyr y plentyn hefyd yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau cynllunio gofal fel sy'n briodol.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom fod bwrdd Makaton yn cael ei arddangos, gydag arwyddion a symbolau i helpu pobl a phlant i gyfathrebu. Dywedwyd wrthym hefyd fod aelodau o'r staff yn gallu defnyddio Makaton i gyfathrebu. Fodd bynnag, nid oedd dolenni sain na braille ar gael i hwyluso cyfathrebu a chytunodd y staff i fynd i'r afael â hyn.

Gwnaethom sylwi nad oedd llawer o glochiau o gwmpas yr hosbis er mwyn i'r plant a'r teuluoedd wybod pa adeg o'r dydd oedd hi. Cytunodd yr hosbis i ystyried sut y gallai ymgorffori dulliau priodol o gyfeirio at amser fel rhan o'u cynllun gwaith ar gyfer ailwampio'r adeilad.

Gwnaethom drafod y ffordd roedd y staff yn mynd ati i gael sgysiau anodd a sensitif gyda phlant a'u teuluoedd am ofal a threfniadau diwedd oes. Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael hyfforddiant rheolaidd ar hyn ac yn cael eu cefnogi yn hyn o beth drwy oruchwyliaeth. Gall y teuluoedd hefyd droi at weithiwr cymorth

teulu sydd wrth law i drafod unrhyw bryderon neu ddymuniadau ar unrhyw adeg. Eglurodd y staff hefyd eu bod yn deall ei bod yn bosibl bod teuluoedd am siarad am eu pryderon a'u gofidiau yn ystod gofal diwedd oes, ac maent yn gwneud yn siŵr bod rhywun ar gael iddynt siarad â nhw, yn arbennig yn ystod y nos. Gwnaethom ddysgu hefyd fod yr hosbis yn cynnig cymorth i frodyr a chworydd, gan gynnwys ar ôl i blentyn farw. Gwnaethom nodi bod y rhain yn feysydd o arfer da.

Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom fod y cynlluniau gofal wedi'u teilwra ac yn adlewyrchu anghenion unigol y plant. Roedd y cynlluniau gofal yn cael eu llunio cyn i blentyn gael ei dderbyn, a oedd yn caniatáu i'r staff gael gwybod am eu hanghenion ac unrhyw gyfarpar angenrheidiol cyn iddo ddod i aros.

Gwelsom dystiolaeth bod teuluoedd yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gofal plant, a bod asesiadau hanesyddol a chyfredol ar waith a oedd yn helpu'r staff i ddarparu gofal a thriniaethau.

Roedd y plant yn cael eu hannog i wneud cymaint â phosibl drostynt eu hunain, yn unol â'u dewisiadau a'u gallu. Gwelsom hefyd fod y gwelyau a'r cyfleusterau a oedd ar gael ar gyfer pob plentyn yn ystod ei arhosiad wedi'u teilwra er mwyn diwallu ei anghenion penodol a gwahanol.

Wrth siarad â'r staff, roedd yn glir eu bod wedi treulio amser yn dod i adnabod y plant dan eu gofal yn dda iawn. Gwnaethom siarad ag aelod o'r staff a oedd wedi dechrau gofalu am blentyn newydd yn ddiweddar, a bod cynllun gofal manwl y plentyn wedi'i alluogi i ddarparu'r gofal yr oedd ei angen.

Ar y cyfan, roeddem yn falch o weld gwelliant sylweddol yn y gwaith o gynllunio gofal ers ein harolygiad diwethaf yn 2015.

Trosglwyddo pobl ifanc i wasanaethau gofal iechyd i oedolion

Gan fod AGIC yn cynnal adolygiad thematig ehangach o bobl ifanc sy'n trosglwyddo o wasanaethau gofal iechyd pediatrig i wasanaethau gofal iechyd i oedolion, gwnaethom drafod gydag uwch aelodau o'r staff am y cymorth sydd ar gael i bobl ifanc sy'n ymwneud â Thŷ Hafan. Eglurodd y staff fod y trefniadau trosglwyddo fel arfer yn cael eu llywio gan anghenion addysgol neu ofal iechyd parhaus y person ifanc. Dywedwyd wrthym fod gan Dŷ Hafan weithiwr trosglwyddo i gefnogi pobl ifanc a theuluoedd i drosglwyddo o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol pediatrig i wasanaethau gofal iechyd a chymdeithasol i oedolion. Caiff cymorth ei ddarparu ar sail achos unigol a bydd

y trefniadau trosglwyddo yn dibynnu ar ddisgwyliad oes person ifanc a'i anghenion. Dywedodd y staff wrthym fod Tŷ Hafan yn parhau i gefnogi pobl ifanc hyd at 25 oed, ond nad oedd hyn yn cynnwys sesiynau preswyl. Mae Tŷ Hafan yn hwyluso grwpiau cymorth cymheiriaid i bobl ifanc 16 - 25 oed ac mae gan yr hosbis gynlluniau i ddatblygu hyn drwy greu mwy o gyfleusterau a ffyrdd i'r grŵp hwn gymdeithasu.

Eglurodd y staff y byddai Tŷ Hafan yn darparu cymorth eiriolaeth yn bennaf i bobl ifanc a'u teuluoedd mewn cyfarfodydd trosglwyddo gyda gwasanaethau iechyd a chymdeithasol ac mewn ysgolion. Disgrifiodd y staff y ffordd y byddent yn helpu pobl ifanc a'u teuluoedd i feddwl am yr hyn y byddai ei angen arnynt o ran cymorth yn y dyfodol, ac yn eu helpu i gyfleu hyn yn effeithiol i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol. Dywedwyd wrthym y byddai Tŷ Hafan hefyd yn cefnogi teuluoedd mewn trafodaethau am y trefniadau ar gyfer anghenion gofal iechyd parhaus pobl ifanc yn ogystal â chysylltu ag asiantaethau ar gyfer byw yn annibynnol ac ar gyfer cyngor cyfreithiol ar atwrneiaeth.

Gwnaethom ofyn i uwch aelodau o'r staff am y rhwystrau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu wrth drosglwyddo a gwnaethant egluro bod gwahanol fodelau o ofal a chymorth mewn gwasanaethau i oedolion o'u cymharu â gwasanaethau pediatrig. Er enghraifft, eglurodd y staff ei bod yn bosibl na fyddai pobl ifanc yn gymwys i gael cymorth gan wasanaethau gofal lliniarol oedolion, megis gofal seibiant, gan fod y model gofal yn wahanol. Ar ben hyn, mae'n bosibl na fyddai'r amgylchedd mewn hosbis i oedolion yn briodol i ddiwallu anghenion person ifanc yn briodol yn ystod gofal diwedd oes. Eglurodd y staff fod y rhain yn broblemau hysbys a'u bod yn gweithio gyda hosbisau i oedolion i feddwl am wahanol ffyrdd o gefnogi pobl ifanc yn y gymuned neu wrth ddarparu model hyblyg o ofal a fyddai'n briodol i'w hanghenion neu eu dymuniadau. Eglurodd y staff hefyd fod rhwystr arall wrth i bobl ifanc geisio cael gafael ar ofal lliniarol priodol gan fod nifer y plant a phobl ifanc sydd angen gofal lliniarol yn fach o'i chymharu â'r boblogaeth fwy o lawer o oedolion hŷn sydd angen gofal lliniarol, yn arbennig gyda phoblogaeth sy'n heneiddio. Felly, nid oes yr un galw i wasanaethau ddarparu'r math hwn o gymorth arbenigol.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Dywedwyd wrthym fod staff Tŷ Hafan yn cael hyfforddiant mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth a'u bod yn sensitif i wahanol ddiwylliannau a chredoau'r plant a'r teuluoedd sy'n derbyn gofal. Gwelsom fod capel aml-ffydd/ardal weddïo, gydag adnoddau ar gael i gefnogi hyn. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym am y ffordd maent yn parchu dymuniadau'r plentyn a'r teulu ar gyfer

gofal diwedd oes a'r trefniadau ar ôl marwolaeth plentyn, yn unol â'u credoau a'u gwerthoedd.

Mae llety ar gael yn Nhŷ Hafan i deuluoedd, gan gynnwys brodyr a chwiorydd, aros gyda'u plentyn. Eglurodd y staff fod yr ystafelloedd a'r cyfleusterau yn hyblyg er mwyn galluogi rhieni i gysgu yn ystafell eu plentyn, os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Mae fflat ar wahân ar gael hefyd lle gall y teuluoedd aros gyda'i gilydd. Caiff teuluoedd eu hannog i dreulio amser gyda'i gilydd, a hynny'n gymunedol ac yn breifat, ac mae ystod o raglenni gweithgareddau ar gael i gefnogi hyn.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Gwelsom fod amrywiaeth o ddulliau yn cael eu defnyddio i geisio a chael barn plant a'u teuluoedd am y gwasanaethau a ddarperir yn Nhŷ Hafan. Nod hyn oedd sicrhau bod y gwasanaethau a ddarparwyd yn diwallu eu hanghenion. Gwelsom fod yr hosbis wedi cynnal arolwg defnyddwyr gwasanaethau yn ddiweddar.

Dywedwyd wrthym hefyd am ddigwyddiad holi ac ateb a gynlluniwyd i blant a rhieni sy'n derbyn gofal gan Dŷ Hafan i roi'r newyddion diweddaraf iddynt ac ymgynghori â nhw am newidiadau i'r gwasanaethau. Cawsom wybod hefyd am y ffordd roedd plant a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys mewn amrywiaeth eang o ddigwyddiadau cymdeithasol a gweithgareddau a oedd yn cael eu cynnal yn yr hosbis yn rheolaidd. Roedd yn amlwg o sgysiau ag amrywiaeth o aelodau'r staff eu bod yn agored ac yn ymatebol i farn ac adborth gan blant a'u teuluoedd.

Rhoddyd copi i ni o'r canllaw i gleifion a oedd wrthi'n cael ei ddiweddarau, a gwelsom ei fod yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r teuluoedd. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi nad oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth am y ffordd y gallai cleifion/teuluoedd wneud cwyn, na gwybodaeth am y ffordd y gallai pobl godi pryder ag AGIC, yn unol â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod manylion Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi'u cynnwys yn y wybodaeth i gleifion, mewn cysylltiad â chodi pryderon.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Gwelsom fod yr amgylchedd yn lân a bod trefniadau ar waith i atal croesheintio. Nodwyd gennym fod angen gwneud gwelliannau i arwyddion a manau storio yn y gwasanaeth. Roedd angen cwblhau ymarferion tân yn ystod y nos hefyd er mwyn cydymffurfio â'r gorchymyn diogelwch tân.

Roedd anghenion maeth y plant yn cael eu hasesu'n briodol. Roedd dewis o fwyd blasus yr olwg ar gael ac roedd dewisiadau unigol yn cael cymaint o sylw â phosibl.

Gwelsom fod meddyginiaethau'n cael eu rheoli'n ddiogel.

Gwelsom dystiolaeth fod gan Dŷ Hafan wahanol ffyrdd o ystyried sut y gallai wella'r gwasanaeth.

Roedd y cofnodion a'r nodiadau'n gynhwysfawr, wedi'u trefnu'n dda ac yn gyfredol.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom fod yr hosbis i'w gweld yn lân, mewn cyflwr da ac yn addas i'w phwrpas. Roedd gan Dŷ Hafan gynlluniau i ailwampio'r adeilad yn helaeth, gan gynnwys ystafelloedd gwely i blant a theluoedd yn ogystal ag ardaloedd cymunedol. Gwelsom fod gan yr hosbis amrywiaeth o offer a theganau i hyrwyddo gofal, ymgysylltiad a chysur y plant a'u teuluoedd. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd llawer o le i storio eitemau o gyfarpar mwy o faint yn yr adeilad, gan gynnwys trolïau a chadeiriau plant, a oedd yn cael eu storio yn erbyn y waliau ar hyd coridorau a chynteddau. Er bod y coridorau yn fawr, mae potensial i'r eitemau mawr hyn rwystro'r llwybrau cerdded mewn argyfwng. Hefyd, nid oedd modd dod o hyd i'r asesiad risg amgylcheddol cyffredinol ar gyfer yr adeilad yn ystod ein harolygiad.

Wrth siarad â'r staff, gwelsom fod dealltwriaeth dda o'r ffordd i reoli risgiau unigol a oedd yn gysylltiedig â'r cleifion. Gwelsom hefyd fod clychau galw nyrs ar gael yn ystafell wely pob plentyn er mwyn galw am gymorth gan staff. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod cyfarpar yn cael eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw'n briodol er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.

Cawsom sicrwydd gan uwch aelodau o'r staff fod yr hosbis yn cymryd camau unioni i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn y gorchymyn diogelwch tân (a gwblhawyd gan yr Awdurdod Tân ac Achub) ym mis Ebrill 2018. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd ymarfer gwagio mewn argyfwng wedi'i gynnal yn ystod y nos fel y nodwyd yn y gorchymyn. Nodwyd gennym hefyd nad oedd arwyddion da ar gyfer yr allanfeydd tân a gwnaethom gynghori'r hosbis i geisio cyngor priodol ynglŷn â hyn. Gwnaethom gynghori'r hosbis hefyd i wneud yr arwyddion dim smygu yn fwy amlwg yn yr adeilad i deuluoedd ac ymwelwyr fod yn ymwybodol ohonynt.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod asesiad risg amgylcheddol cyfredol ar gael ar gyfer yr adeilad.
- Sicrhau bod cyfarpar a theganau yn cael eu storio'n briodol, er mwyn sicrhau bod llwybrau cerdded yn cael eu cadw'n glir.
- Sicrhau yr ymdrinnir â phob cam gweithredu yn y gorchymyn diogelwch tân, ac y rhoddir ystyriaeth i leoliad arwyddion yr allanfeydd tân, a pha mor amlwg ydynt.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod cydymffurfiaeth dda â threfniadau atal a rheoli heintiau ar y cyfan. Roedd prosesau priodol ar waith a nifer o unedau saniteiddio dwylo er mwyn helpu i leihau cymaint â phosibl ar y risg o heintiau i gleifion, eu teuluoedd a'r staff.

Gwelsom fod amserlenni glanhau dyddiol clir ar waith yr oedd y staff yn eu dilyn i leihau cymaint â phosibl ar y risg o heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Roedd hyn yn cynnwys glanhau teganau, ystafelloedd plant, ardaloedd cymunedol a chyfarpar. Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw wybodaeth dda am agweddau ar atal a rheoli heintiau, ac roedd swyddog

arweiniol ar gyfer atal a rheoli heintiau. Cawsom wybod bod pob ystafell wely yn cael ei glanhau'n drylwyr cyn i'r plentyn nesaf ddod i aros. Gwelsom fod archwiliadau hylendid dwylo yn cael eu cwblhau'n rheolaidd ac y byddai hyfforddiant staff yn cael ei gynnal i ymdrin ag unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio.

Er i ni sylwi bod y cadeiriau cawod yn yr ystafelloedd ymolchi i'w gweld yn lân a bod amserlenni glanhau ar waith, gwnaethom gynghori'r hosbis i ystyried defnyddio arwydd neu sêl o ryw fath fel ffordd o dawelu meddyliau bod y cadeiriau yn lân i'w defnyddio. Gwelsom hefyd fod pethau ymolchi wedi cael eu gadael yn yr ystafell ymolchi a gwnaethom gynghori'r hosbis i sicrhau yr eir â'r rhain yn ôl i ystafell y plentyn er mwyn osgoi dryswch o ran pwy sy'n berchen ar y pethau ymolchi.

Maeth

Gwelsom fod anghenion unigol y cleifion o ran bwyd a hylif yn cael eu hasesu a'u cofnodi cyn cael eu derbyn i Dŷ Hafan. Gwelsom fod maeth yn un o'r adrannau ar gynllun gofal pob plentyn, a oedd yn cynnwys cynllun deiet ac amserlen fwydo i'w dilyn. Gwelsom fod y staff yn cefnogi'r plant i fwyta ac yfed, a'u bod hefyd yn cefnogi'r rhieni i helpu eu plentyn fel y bo'n briodol. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn gallu cael cymorth a chyngor am faeth gan ddeietegwyr yn ôl yr angen.

Dywedwyd wrthym hefyd, mewn achosion pan nad oedd y plant yn gallu bwyta ac yfed yn normal (oherwydd anawsterau llyncu), y nodwyd y mater hwn ar adeg derbyn y plentyn, a'i gyfleu i bob aelod o'r tîm at ddibenion diogelwch.

Yn ystod amserau prydau bwyd, byddai'r plant yn eistedd gyda'u teuluoedd yn yr ardal fwyta gymunedol, a oedd yn creu awyrgylch deuluol a chadarnhaol. Gwelsom fod dewis da o fwyd blasus yr olwg ar gael bob dydd ac eglurodd y staff arlwygo y byddent yn ceisio darparu ar gyfer dewisiadau unigolion a theuluoedd cymaint â phosibl.

Gwelsom fod bwyd wedi'i stwnsio ar gael, ac yn cael ei baratoi gan y staff arlwygo ar gais plentyn neu ei deulu. Eglurodd y staff y byddai unrhyw geisiadau am ddeiet penodol o fwyd wedi'i stwnsio yn cael ei gymeradwyo gan y deietegydd er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion maeth y plentyn. Nodwyd gennym fod darparu'r dewis ychwanegol hwn ar gyfer plant a'u teuluoedd yn arfer da.

Rheoli meddyginiaethau

Ar y cyfan, gwelsom fod y meddyginiaethau a ddefnyddir yn Nhŷ Hafan yn cael eu storio'n ddiogel mewn cypyrddau dan glo ac mewn loceri ymyl y gwely. Gwelsom fod cyffuriau a reolir, y mae trefniadau rheoli llym a phenodol iawn ynghlwm wrthynt, yn cael eu rheoli'n ddiogel gyda chofnodion priodol yn cael eu cadw. Roedd meddyginiaethau yr oedd angen eu cadw'n oer yn cael eu storio mewn oergell addas dan glo, gyda'r tymheredd yn cael ei gofnodi'n ddyddiol i sicrhau eu bod yn cael eu storio ar dymheredd addas.

Gwelsom fod polisi rheoli meddyginiaethau ar waith a oedd yn rhoi canllawiau i'r staff ar sut y dylent fynd i'r afael â'r agwedd hon ar y gofal. Roedd cymorth â meddyginiaeth ar gael i'r staff nyrsio hefyd drwy'r meddyg teulu a'r meddyg ymgynghorol yn yr hosbis. Dywedwyd wrthym hefyd fod Tŷ Hafan yn bwriadu cael fferylllydd penodedig a fyddai'n gallu cynnig cymorth a chyngor am y meddyginiaethau a ddefnyddir.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth. Ar y cyfan, gwelsom fod y rhain wedi cael eu cwblhau'n gywir ar bob achlysur y rhoddwyd meddyginiaeth ac roedd yn cynnwys manylion adnabod y cleifion. Gwelsom fod y staff yn gwisgo ffedogau coch wrth roi meddyginiaeth er mwyn rhybuddio'r staff eraill i beidio â tharfu arnynt. Mae hwn yn arfer da fel ffordd o leihau'r risg o wneud camgymeriadau.

Gwelsom fod pwyslais ar drosglwyddo gwybodaeth yn gywir o gofnodion cymunedol y plant i gofnodion yr hosbis. Roedd y broses hon (a elwir hefyd yn trawsgrifio) yn arfer cyffredin yn Nhŷ Hafan. Er y gellir bod risg o gamgymeriadau wrth drawsgrifio gwybodaeth am feddyginiaethau'n anghywir, a allai beri risgiau i ddiogelwch cleifion, gwelsom fod Tŷ Hafan yn gweithredu trefniadau llywodraethu a hyfforddiant priodol ar y broses hon er mwyn sicrhau bod y plant yn derbyn eu meddyginiaeth yn ddiogel. Dywedwyd wrthym fod yn rhaid i'r staff weithio yn yr hosbis am flwyddyn cyn y caniateir iddynt drawsgrifio, ac yna cânt eu hasesu i sicrhau eu bod yn gymwys.

Nodwyd gennym hefyd fod gan Dŷ Hafan fframwaith gwallau meddygol, a oedd yn nodi patrymau mewn gwallau yn ymwneud â rheoli meddyginiaethau, a byddai hyfforddiant, goruchwyliaeth a chymorth ychwanegol yn cael ei roi i'r staff dan sylw. Roeddem o'r farn bod hyn yn arfer da a dywedwyd wrthym ei fod yn helpu i annog proses ddysgu agored a thryloyw yn sgil digwyddiadau neu rai y bu bron iddynt ddigwydd.

Gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei pharatoi ar silff fach y gellir ei thynnu allan yn ymyl y loceri meddyginiaeth yn ystafelloedd gwely'r plant. Am nad oedd llawer o le ar gael, gwnaethom awgrymu bod yr hosbis yn ystyried defnyddio hambyrddau paratoi meddyginiaethau er mwyn cefnogi diogelwch y

meddyginiaethau wrth iddynt gael eu paratoi, a hefyd fel ffordd arall o fesur y broses rheoli heintiau.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Rhodddwyd sicrwydd i ni fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant diogelu ar y lefel briodol ar gyfer ei rôl a'i gyfrifoldebau. Gwelsom y matrices hyfforddiant staff a gadarnhaodd fod cydymffurfiaeth â'r hyfforddiant hwn yn 100%. Roedd gan yr hosbis hefyd nifer o swyddogion diogelu arweiniol. Roedd uwch aelodau o'r staff yn dangos bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r gweithdrefnau diogelu. Gwnaethant gadarnhau bod cyngor a chymorth ar gael i'r staff gan dîm diogelu penodedig.

Gwelsom fod yr hysbysfwrdd cleifion yn swyddfa'r staff yn cynnwys symbol diogelu a oedd yn rhybuddio staff os oedd cynllun diogelu ar waith ar gyfer plentyn penodol. Dywedodd y staff wrthym hefyd y byddai unrhyw faterion diogelu yn cael eu trafod yn y cyfarfod trosglwyddo rhwng y staff.

Dywedodd yr holl staff a gwblhaodd yr holiadur pe byddent yn poeni am ymarfer clinigol anniogel, y byddent yn gwybod sut i roi gwybod amdano. Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd ein holiadur wrthym y byddent yn teimlo'n ddiogel wrth godi pryderon am ymarfer clinigol anniogel, a'u bod yn hyderus y byddai eu sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon ar ôl iddynt roi gwybod amdanynt.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod y plant i'w gweld yn gyfforddus a'u bod yn cael gofal da. Yn y sampl o gofnodion gofal y cleifion, gwelsom fod asesiadau risg ar sail tystiolaeth a chynlluniau gofal unigol ar waith. Gwelsom hefyd fod cynlluniau gofal poen a siartiau poen ar waith ar gyfer plant er mwyn helpu â'r broses barhaus o fonitro poen yn ôl yr angen. Roedd y rhain yn helpu i hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol.

Gwelsom fod bwrdd gwybodaeth am gleifion yn swyddfa'r staff yn cynnwys manylion cyfredol am blant unigol i helpu'r staff wrth iddynt ddarparu gofal a chymorth. Dim ond y staff a allai weld y wybodaeth hon.

Gwelsom fod gan Dŷ Hafan gefnogaeth feddygol drwy gydol yr wythnos, wedi'i rhannu rhwng grŵp o feddygon teulu o feddygfa leol a meddygon ymgynghorol gofal lliniarol pediatriig. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu cael gafael ar gymorth y tu allan i oriau drwy'r rota meddyg ymgynghorol gofal lliniarol pediatriig sydd ar alw drwy switsfwrdd Ysbyty Athrofaol Cymru, i geisio cyngor a chymorth.

Disgrifiodd y staff hefyd y ffordd roedd yr hosbis wedi creu cysylltiadau â meddygon ymgynghorol pediatrig gofal eilaidd y bwrdd iechyd, ac yn darparu cymorth a chynghor i feddygon teulu lleol y plant ynghylch eu gofal a'u meddyginiaeth. Gwelsom fod trefniadau addas ar gyfer trosglwyddo'r plant yn ddiogel ac yn gyflym i Ysbyty Athrofaol Cymru yn ôl yr angen.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth fod gan Dŷ Hafan wahanol ffyrdd o ystyried sut y gallai wella'r gwasanaeth, a gwelsom fod amrywiaeth o archwiliadau ar waith. Gwelsom hefyd fod yr hosbis wedi datblygu ac wedi peilota fframwaith sicrhau ansawdd wedi'i gyfochri â'r themâu yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Annibynnol (2011), Safonau Iechyd a Gofal y GIG (2015), adnodd Cwestiynau Archwilio Pediatrig y Safonau Iechyd a Gofal (2015), prosiect gwella 1,000 o fywydau (Iechyd Cyhoeddus Cymru) a Chod Ymarfer y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Gwelsom fod y fframwaith wedi'i ddatblygu i drafod saith prif thema, sef gofal unigol, gofal ag urddas, gofal effeithiol, gofal diogel, gweithlu, arolwg staff ac arolwg defnyddwyr gwasanaethau. Eglurodd yr uwch reolwr y byddai'r archwiliadau rheolaidd a gwblheir yn yr hosbis yn bwydo i mewn i'r fframwaith hwn er mwyn nodi cydymffurfiaeth ac unrhyw feysydd ar gyfer gwella, a byddai hyn wedyn yn esgor ar gynllun gweithredu. Nodwyd gennym fod hwn yn arfer da.

Rheoli cofnodion

Roedd y cofnodion a'r nodiadau'n gynhwysfawr, wedi'u trefnu'n dda ac yn gyfredol. Rodd y cofnodion yn rhai papur ac yn cael eu cadw'n ddiogel. Roedd cofnodion hanesyddol yn cael eu cadw'n drefnus mewn ffeiliau papur mewn ardal dan glo. Roedd siartiau meddyginiaeth a nodiadau nyrsio cyfredol yn cael eu cadw yn ystafelloedd gwely'r plant unigol. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi bod nodiadau meddyginiaeth a nodiadau nyrsio cyfredol yn cael eu cadw mewn poced blastig ar glipfwrdd ac roeddem o'r farn bod potensial i'r cofnodion ddod yn rhydd o'r ffeiliau. Mae angen gwneud trefniadau i fynd i'r afael â hyn.

Gwelsom hefyd fod y staff nyrsio yn gwneud nodiadau mewn set o gofnodion ar wahân i'r rhai a ddefnyddir gan y staff amlddisgyblaethol. Efallai y byddai'r hosbis yn dymuno ystyried datblygu cofnodion tîm amlddisgyblaethol i hyrwyddo cyfathrebu rhwng staff ymhellach.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerir i adolygu'r trefniadau ar gyfer storio meddyginiaeth a nodiadau nyrsio cyfredol er mwyn sicrhau nad yw'r cofnodion yn dod yn rhydd o'r ffeiliau neu'n mynd ar goll ar ddamwain.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Ar y cyfan, gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda yn yr hosbis, gyda'r staff, yn gyffredinol, yn sôn yn gadarnhaol am y cymorth y maent yn ei gael gan y rheolwyr.

Dyweddodd y mwyafrif o'r staff wrthym eu bod yn cael eu trin yn deg yn y gwaith a bod diwylliant agored a chefnogol.

Roeddem yn falch o weld y gwelliannau a wnaed i'r gwasanaeth ers ein harolygiad diwethaf yn 2015.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Gwelsom fod gan yr hosbis strwythur rheoli priodol ar waith a disgrifiwyd llinellau adrodd ac atebolrwydd clir.

Roedd yr hosbis wedi llunio datganiad o ddiben fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Roedd 'unigolyn cyfrifol' a 'rheolwr cofrestredig' wedi eu henwebu ar gyfer goruchwyllo'r gwaith o reoli'r ysbyty annibynnol. Yn unol â'r rheoliadau, roedd yr unigolion hyn mewn uwch swyddi yn y sefydliad. Cadarnhaodd trafodaethau gyda'r unigolyn cyfrifol eu bod yn gweithio yn yr hosbis a bod ganddynt oruchwyliaeth o weithrediad yr hosbis o ddydd i ddydd, a gwybodaeth barhaus am ansawdd y gwasanaethau.

Roedd rheolwr hosbis yn gyfrifol am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd. Gwelsom fod y rheolwyr a'r uwch nyrsys â chyfrifoldeb i'w gweld yn amlwg ac yn rhoi cyfarwyddyd a chymorth i'r tîm staff. Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd ein holiadur fod cyfathrebu effeithiol ar y cyfan rhwng yr uwch reolwyr a'r staff. Dywedodd y staff hefyd fod yr uwch reolwyr fel arfer yn cynnwys y staff mewn penderfyniadau pwysig, a'u bod fel arfer yn gweithredu ar adborth gan y staff. Fodd bynnag, cawsom rai sylwadau gan staff a awgrymai yr hoffent i'r uwch reolwyr eu cynnwys a gwrando arnynt yn fwy yn ystod y broses o wneud penderfyniadau.

Gwelsom fod gan yr hosbis bwyllgorau llywodraethu clinigol ar waith a oedd yn derbyn ac yn craffu ar wybodaeth a gasglwyd gan y tîm staff, o ran y gwasanaethau a ddarperir. Nod hyn oedd monitro ansawdd y driniaeth yn barhaus a gwneud gwelliannau cyn belled ag y bo hynny'n bosibl. Dywedwyd wrthym fod y pwyllgor hwn yn ymchwilio i unrhyw ddigwyddiadau clinigol a oedd yn codi. Roedd yn cael ei ddefnyddio hefyd fel fforwm ar gyfer ystyried adroddiadau a luniwyd gan y tîm staff ar syniadau am welliannau i'r gwasanaeth.

Dyweddodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd yr holiadur fod y sefydliad bob amser yn annog gwaith tîm ac o'r farn mai gofalu am y cleifion oedd blaenoriaeth bennaf y sefydliad a bod y sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan gleifion.

Er bod y staff wedi dweud y gall natur y gwaith yn Nhŷ Hafan fod yn emosiynol a bod pwysau arnynt pan fod y baich gwaith yn drwm, roedd yr aelodau o'r staff yn cytuno ar y cyfan fod eu rheolwr uniongyrchol a'r sefydliad yn cymryd diddordeb cadarnhaol yn eu hiechyd a'u lles.

Ar y cyfan, roeddem yn falch o weld y gwelliannau sylweddol a wnaed yn y gwasanaeth ers ein harolygiad diwethaf yn 2015.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwelsom fod prosesau sefydledig ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau yn Nhŷ Hafan. Roedd gweithdrefn gwyno ffurfiol ar waith ac roedd gwybodaeth am sut i wneud cwyn wedi'i nodi yn y canllaw i gleifion ac ar gael ar ffurf taflenni. Dywedodd y staff wrthym mai nifer fach iawn o gwynion a gafwyd am y gwasanaeth, ond gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn gweithredu ar adborth a phryderon a godir. Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion yn ymwneud â phryderon a digwyddiadau a gwelsom yr ymdriniwyd â'r rhain yn briodol.

Roedd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd ein holiadur yn gwybod bod adborth ar brofiad cleifion (e.e. arolygon cleifion) yn cael ei gasglu, gan ddweud eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar yr adborth ar brofiad cleifion. Roedd y staff yn gytûn bod yr adborth ar brofiad cleifion yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau deallus er mwyn gwella'r gwasanaeth.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd ein holiadur yn cytuno bod y sefydliad yn trin staff sy'n gysylltiedig â gwall, sefyllfa a allai fod wedi arwain at broblemau neu ddigwyddiad yn deg. Dywedodd y staff hefyd eu bod yn teimlo bod y sefydliad yn ymdrin ag unrhyw wall, sefyllfa a allai fod wedi arwain at broblemau neu ddigwyddiad yn gyfrinachol, a dywedodd pob un ond un o'r staff

eu bod yn cael adborth am newidiadau a wneir mewn ymateb i wallau, sefyllfaoedd a allai fod wedi arwain at broblemau neu ddigwyddiadau a adroddir.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Ar adeg ein harolygiad, roedd naw plentyn a'u teuluoedd yn cael gofal a chymorth gan nifer ddigonol o staff â'r sgiliau priodol. Roedd dibyniaeth ac anghenion pob plentyn yn cael eu hasesu cyn ei dderbyn, ac ar sail hyn, cynlluniwyd nifer y staff a'r sgiliau roedd eu hangen i ofalu am y plant. Y lefelau staffio gofynnol oedd un aelod o staff nyrsio cofrestredig i bob claf, ond byddai'r lefel hon yn cael ei chynyddu gan ddibynnu ar anghenion a dibyniaeth pob plentyn. Er nad oedd gennym unrhyw bryderon am lefelau staffio yn ystod ein harolygiad, dywedodd dros draean o'r staff a gwblhaodd ein holiadur nad oeddent weithiau yn gallu bodloni'r holl alwadau a oedd yn cystadlu am eu hamser yn y gwaith, a dywedodd y rhan fwyaf o'r staff nad oes digon o staff yn y sefydliad bob amser er mwyn iddynt wneud eu gwaith yn iawn. Cynghorir yr hosbis i ystyried y mater hwn ymhellach gyda'r tîm staff

Roedd yr hosbis yn cael budd o dîm staff sefydlog a gwelsom fod trefniadau addas ar waith i reoli absenoldebau heb eu cynllunio, gwyliau neu argyfyngau (er enghraifft, drwy ddefnyddio staff banc sefydledig neu staff asiantaeth). Gwelsom fod rhaglen sefydlu ar waith i gefnogi staff newydd a staff dros dro i ymgyswddo â'r gwasanaeth.

Gwnaethom edrych ar y cofnodion a ddangosai gydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ac roeddem yn falch o weld cyfraddau cydymffurfio uchel ymhliith staff ar gyfer yr holl hyfforddiant gorfodol. Dywedodd y mwyafrif o'r staff yn yr holiaduron eu bod wedi ymgymryd ag amrywiaeth eang o hyfforddiant neu ddysgu a datblygu yn ystod y 12 mis diwethaf, sy'n eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol a darparu gwasanaeth gwell i gleifion.

Mae gan yr hosbis swyddog arweiniol ar gyfer addysg a datblygu. Dywedodd uwch aelodau o'r staff fod dwy wythnos wedi'u neilltuo fel amser ar gyfer hyfforddiant a datblygiad staff bob blwyddyn. Caiff y staff eu hannog i gyfrannu at yr hyfforddiant hwn a chaiff hyfforddiant mewnol wedi'i deilwra ei drefnu'n aml hefyd. Dywedodd uwch aelodau o'r staff wrthym hefyd yr ymdrinnir ag unrhyw themâu neu batrymau a fyddai'n codi o ddigwyddiadau yn y sesiwn hyfforddi staff nesaf. Nodwyd gennym fod hwn yn arfer da.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion yn ymwneud ag amrywiaeth o staff a gwirfoddolwyr yn yr hosbis. Gwelsom dystiolaeth bod staff wedi cael eu

recriwtio mewn ffordd briodol, a oedd yn cynnwys y gwiriadau cyn cyflogi gofynnol. Yn yr holl gofnodion y gwnaethom eu hadolygu, gwelsom fod staff, gwirfoddolwyr, gweithwyr banc a gweithwyr asiantaeth wedi cael gwiriadau priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a bod ffotograffau wedi'u cynnwys yn eu ffeiliau. Roeddem yn falch o weld y gwelliant yn y maes hwn ers ein harolygiad diwethaf yn 2015. Gwelsom hefyd fod y staff wedi cael contractau a disgrifiadau swydd newydd fel rhan o broses o adolygu'r telerau ac amodau cyflogaeth yn Nhŷ Hafan yn ddiweddar.

Ymddengys bod yr hosbis yn cael budd o weithlu sefydlog lle roedd trosiant staff a salwch staff yn isel. Gwelsom fod gwybodaeth briodol yn cael ei cheisio ar gyfer unrhyw weithwyr banc neu asiantaeth. Eglurodd y staff y byddent ond yn derbyn gweithwyr asiantaeth â'r sgiliau priodol a oedd wedi ymgymryd â sifftiau cysgodi yn Nhŷ Hafan er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gyfarwydd â nhw. Eglurodd uwch aelodau o'r staff eu bod yn gallu defnyddio nifer fach o weithwyr asiantaeth a oedd yn hysbys i Dŷ Hafan. Yn yr un modd, roedd y gweithwyr banc hefyd yn hysbys i Dŷ Hafan ac roedd gwybodaeth lawn am y staff yn cael ei chadw gan yr adran adnoddau dynol.

Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith er mwyn i staff godi unrhyw bryderon am unrhyw agwedd ar y gwasanaeth, a hynny mewn modd cyfrinachol. Gwelsom fod prosesau priodol ar waith pe byddai aelod o'r staff yn codi pryder, er mwyn sicrhau y byddai'r mater yn cael ei archwilio'n briodol.

Dywedodd ychydig dros hanner y staff a gwblhaodd ein holiadur eu bod wedi cael arfarniad yn ystod y 12 mis diwethaf. Gwelsom sampl o arfarniadau blynyddol a oedd yn dangos eu bod wedi cael eu cwblhau gan y staff. Eglurodd yr uwch reolwyr fod goruchwyliaeth fewnol ac allanol ar gael i'r staff. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu gwaith.

Gwelsom fod pwyslais ar lesiant staff, o ystyried natur sensitif y gwaith yn Nhŷ Hafan. Eglurodd y staff y byddai sesiwn dadfriffio yn cael ei chynnal ar ôl marwolaeth plentyn a byddai gwasanaeth coffa hefyd yn cael ei gynnal yn yr hosbis i'r staff ei fynychu.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw faterion roedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Tŷ Hafan

Dyddiad arolygu: 9 a 10 Hydref 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig gymryd camau i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas, mewn cysylltiad â drysau'r ystafelloedd ymolchi/toiledau.	10. Urddas a pharch	<p>Cafodd yr holl ofynion yn ymwneud ag arwyddion ystafelloedd ymolchi ac ardaloedd gofal eu hadolygu gan yr uwch dîm rheoli gofal yn dilyn yr arolygiad a gynhaliwyd ar 9 a 10 Hydref 2018.</p> <p>Mae'r gwasanaeth wedi archwilio'r gofynion ar gyfer arwyddion a fyddai'n diwallu anghenion yr holl ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n defnyddio'r sefydliad ac wedi dewis yr arwyddion mwyaf</p>	Pennaeth Llywodraethu ac Ansawdd	Diwedd mis Tachwedd 2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>priodol i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas, ac i sicrhau bod yr holl anghenion cyfathrebu a galluoedd wedi cael eu hystyried.</p> <p>Caiff yr arwyddion eu gosod o fewn yr amserlen a bennwyd cyn gynted ag y bydd yr archeb wedi'i darparu ac mae'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Arwyddion penodol i rywedd ac arwyddion niwtral o ran rhywedd; • Hysbysiadau i ddangos bod yr ystafell yn cael ei defnyddio; ac • Arwyddion 'Do not disturb' lle bo angen. 		
<p>Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod manylion Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi'u cynnwys yn y wybodaeth i gleifion mewn cysylltiad â chodi pryderon.</p>	<p>5. Ymgysylltu â dinasyddion a cheisio adborth</p>	<p>Bydd arwyddion, posteri a gwybodaeth yng Nghlanllaw'r Sefydliad i Gleifion, sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau ac sydd wedi'i gyhoeddi ar wefan Tŷ Hafan, yn cael eu newid i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn ymwybodol y gallant gysylltu ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn uniongyrchol i godi pryderon am unrhyw</p>	<p>Rheolwr Cofrestredig</p>	<p>Rhagfyr 2018</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>agwedd ar y Sefydliad.</p> <p>Bydd y cytundeb rhieni, sef dogfen newydd sy'n cyd-fynd â'r Canllaw i Gleifion, hefyd yn cael ei ddiwygio i gynnwys manylion cyswllt AGIC.</p> <p>Caiff posteri a thafleuni eu diweddarau i sicrhau bod manylion cyswllt AGIC yn cael eu darparu a bydd y wybodaeth yn cyfeirio'n benodol at godi pryderon ag AGIC yn uniongyrchol.</p>		
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
<p>Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerir er mwyn gwneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod asesiad risg amgylcheddol cyfredol ar gael ar gyfer yr adeilad. Sicrhau bod cyfarpar a theganau yn cael eu storio'n briodol, er mwyn sicrhau bod llwybrau cerdded yn cael eu cadw'n glir. 	<p>22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch</p> <p>12. Amgylchedd</p> <p>4. Trefniadau Cynllunio at Argyfyngau</p>	<ol style="list-style-type: none"> Bydd yr asesiad risg Amgylcheddol yn cael ei gynnal fel cam gweithredu lechyd a Diogelwch gan Gwmni Annibynnol allanol. Storio cyfarpar: <ol style="list-style-type: none"> Bydd y Cydgysylltydd Cadw Tŷ yn cynnal adolygiad cadw tŷ dyddiol a fydd yn cynnwys arsylwi ar yr 	<p>Swyddog lechyd a Diogelwch; Prif Swyddog Gweithredol; Rheolwr Cofrestredig; Uwch dîm rheoli gofal</p>	<ol style="list-style-type: none"> Diwedd mis Rhagfyr 2018 Tachwedd 2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau yr ymdrinnir â phob cam gweithredu yn y gorchymyn diogelwch tân, ac y rhoddir ystyriaeth i leoliad arwyddion yr allanfeydd tân, a pha mor amlwg ydynt. 		<p>amgylchedd ac unrhyw bryderon diogelwch ar y llwybrau cerdded.</p> <p>2.2 Bydd uwch reolwyr gofal a rheolwyr gofal canol yn ymgymryd â gwaith monitro parhaus. Fel rhan o hyn, bydd cerdded o gwmpas y safle yn ddyddiol yn cael ei gynnwys yn eu dyletswyddau a bydd y dasg yn cael ei dyrannu i'r uwch swyddog ar alw ar y rota ar alw.</p> <p>2.3 Bydd arolygiadau rheolaidd yn cynnwys arsylwi ar y llwybrau cerdded a sicrhau bod cyfarpar a theganau yn cael eu storio'n briodol bob amser.</p>		<p>3. Tachwedd</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>3. Bydd ymarfer tân yn ystod y nos wedi'i gynllunio yn cael ei gynnal ar 27 Tachwedd gan ystyried y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y plant a fydd yn aros a'u hanghenion er mwyn achosi cyn lleied o bryder iddynt â phosibl • Y staff sydd wedi'u hamserlenni i fod ar ddyletswydd • Gwasanaethau diogelwch sy'n bresennol yn ystod y nos <p>Bydd arsylwadau yn cael eu cymryd yn ystod yr ymarfer tân a bydd unrhyw gamau gweithredu uniongyrchol sy'n ofynnol yn cael eu cymryd.</p> <p>Bydd y Swyddog Diogelwch Tân yn cael gwybod am yr ymarfer tân a'r canlyniadau a'r camau gweithredu a allai gael eu nodi</p> <p>4. Arwyddion yr allanfeydd tân i gael</p>		<p>2018</p> <p>4. Tachwedd 2018</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		eu hadolygu a'u gwella		
Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerir i adolygu'r trefniadau ar gyfer storio meddyginiaeth a nodiadau nyrsio cyfredol er mwyn sicrhau nad yw'r cofnodion yn dod yn rhydd o'r ffeiliau neu'n mynd ar goll ar ddamwain.	20. Rheoli cofnodion	Mae adolygiad o'r Ffeil Ystafelloedd Gwely Gofal ar gyfer rheoli meddyginiaeth yn cael ei gynnal i weld beth yw'r modd mwyaf priodol o storio ffeiliau i ddiwallu anghenion storio dogfennaeth meddyginiaeth yn ddiogel ac yn effeithiol.	Pennaeth Gwasanaethau Gofal Hosbis	Rhagfyr 2018
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Ni nodwyd unrhyw welliannau yn y maes hwn	1 Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd			

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Hayley Humphries

Teitl swydd: Pennaeth Llywodraethu ac Ansawdd, Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: Tachwedd 19